# Bwletin y Farchnad HCC


Ebrill 2020

**Mae'r gadwyn gyflenwi cig coch yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddefnyddwyr, ac felly bydd unrhyw newidiadau yn ymddygiad a galw'r defnyddwyr yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi gyfan. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar effaith pandemig Covid-19 ar y farchnad gig eidion hyd yn hyn.**

Ers i'r cyfyngiadau symud ledled y DU ddod i rym ar 23 Mawrth 2020 oherwydd y pandemig Covid-19, mae'r diwydiant cig eidion wedi bod dan bwysau am sawl rheswm. Mae hyn wedi arwain at brisiau ansefydlog yn y farchnad yn ystod y misoedd diwethaf ar gyfer pob categori o wartheg - gwartheg dethol a gwartheg difa.

Yn ystod yr wythnosau yn union ar ôl pennu'r cyfyngiadau symud, roedd yn ymddangos bod prisiau pwysau marw gwartheg dethol yn dal eu tir, ond ers dechrau mis Ebrill mae'r prisiau wedi bod yn gostwng. Cafwyd y prisiau pwysau marw uchaf bustych yng Nghymru a Lloegr (sef 333.7c/kg) yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 28 Mawrth, ond cafwyd gostyngiad o tua 15c yn ystod yr wythnosau canlynol hyd nes eu bod tua 20c yn is nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Cafwyd y prisiau pwysau marw uchaf am fuchod difa yng Nghymru a Lloegr (sef 234.9c/kg) yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Mawrth, ond gwelwyd

**Pris pwysau marw cyfartalog gwartheg difa yng Nghymru a Lloegr**




cwymp sylweddol yn dilyn y cyfyngiadau symud. Wrth i brisiau ymateb i bwysau'r farchnad, cafwyd y prisiau pwysau marw isaf am fuchod difa (sef 207.3c/kg) yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 11 Ebrill. Golygodd ostyngiad o bron 30c o fewn ychydig wythnosau. Ers y gostyngiad hwn, fodd bynnag, mae prisiau buchod difa wedi sefydlogi rhywfaint yn ystod yr wythnosau diwethaf (er bod y pris tua 30c yn is nag oedd flwyddyn yn gynharach).

## *Beth sy'n dylanwadu ar brisiau ansefydlog y farchnad?*


Cyn y cyfyngiadau symud, roedd mân-werthwyr y DU yn sylwi ar gynnydd mawr mewn gwerthiannau wrth i bobl yn eu gwylltineb brynu llawer iawn o gig eidion a phroteinau eraill i'w rhewi yn eu cartrefi. Oddi ar y cyhoeddiad am gyfyngiadau symud, mae **colli'r sector gwasanaeth bwyd** wedi golygu bod mwy o gig yn cael ei drafod gan fân-werthwyr, sydd wedi creu sefyllfa anodd i rai proseswyr. Awgrymwyd bod rhai defnyddwyr wedi ymddwyn fel pe bai'n gyfnod o ddirwasgiad yn ystod wythnosau cyntaf y cyfyngiadau symud. Mae ffigurau ar gyfer gwerthiannau manwerth yn dangos bod y galw am yr holl doriadau o gig eidion wedi cynyddu mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd y cynnydd yn y galw am friwgig eidion yn ddramatig yn ystod y cyfnod hwn - gyda chynnydd o 45% *(ffynhonnell: Kantar Worldpanel)*. Digwyddodd hyn oherwydd cynnydd yn nifer y prydau wedi'u coginio yn y cartref, ynghyd â'r ffaith fod briwgig eidion yn amlbwrpas ac yn boblogaidd gan ddefnyddwyr.


Mae'r cynnydd yng ngwerthiant briwgig yn creu problem o ran cynnal **cydbwysedd carcas**. Gwaethygodd y broblem pan gollwyd y sector gwasanaeth bwyd, sydd fel arfer yn farchnad ar gyfer y toriadau cig eidion drutaf (fel stêcs a darnau i'w rhostio). Wrth ddefnyddio mwy o'r carcas cig eidion ar gyfer briwgig, mae gwerth y carcas cyfan yn gostwng yn sylweddol, ac mae prisiau'n dioddef. At hynny, wrth i gynhyrchu cig eidion yn y DU barhau, mae'r toriadau uchaf eu gwerth nad oes eu hangen bellach yn cynyddu hefyd, ac mae hyn yn creu problemau storio ac yn niweidiol i brisiau yn y diwydiant cig eidion.

Yn ogystal â phroblemau cydbwysedd carcas, mae proseswyr hefyd yn wynebu problem hirdymor yn sgil y gostyngiad yng **ngwerth y 5[ed] chwarter** - fel offal a chrwyn. Mae rhai gwneuthurwyr ceir ledled Ewrop wedi rhoi'r gorau iddi oherwydd y pandemig, ac mae hyn wedi peri i brisiau crwyn ostwng hyd yn oed fwyfwy. O ran **allforion cig eidion**; mae cau gwasanaethau bwyd ar y cyfandir wedi cael effaith ar y galw am gynnyrch ledled Ewrop. Yn aml, bydd cig eidion ar gyfer cynhyrchion yn cael ei allforio (gyda galw mawr o wledydd yr UE), ond mae cymhlethdodau ynglŷn â chludiant a chwymp sydyn yn y galw gan ddefnyddwyr yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar brisiau buchod difa, yn ogystal ag ar brisiau gwartheg dethol. Ar hyn o bryd, dim ond hyd at fis Chwefror eleni y mae data masnach ar gael, ac felly nid yw'n cyfrif am y pandemig Covid-19 yn y DU; roedd allforion cig eidion o'r DU yn ystod mis Chwefror i fyny 6.4% mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol y llynedd.

Wrth i'r cyflenwad adlewyrchu'r cynnydd mewn galw, lladdwyd 5.6% yn fwy o wartheg yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Mawrth nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Mae'n debygol fydd y nifer yn ystod mis Ebrill yn llai - er y gall parhad y prisiau isel am laeth arwain at fwy o fuchod godro'n cael eu lladd, a byddai hynny'n rhoi pwysau pellach ar brisiau'r farchnad.

**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloeger**









## GWARTHEG

Mae'r pris cyfartalog am gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng unwaith eto yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn yr wythnos yn diweddu 25 Ebrill, roedd y pris pwysau byw yn 183.4c/kg - 3.0c yn is na'r wythnos flaenorol, a 5.5c yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r pris ar hyn o bryd yn 0.8c yn is na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 184.2c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben 25 Ebrill, roedd prisiau pwysau marw cyfartalog bustych yng Nghymru a Lloegr yn 318.3c/kg, sef 0.7c yn is nag yn yr wythnos flaenorol a 22.9c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn 316.7c/kg (-3.7c ac yr wythnos flaenorol), prisiau teirw ifanc yn 306.1c/kg (+1.8c), a phrisiau gwartheg difa yn 208.2p/kg (+0.2c).

Lladdwyd cyfanswm o 252,700 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Mawrth - 5.6% yn fwy nag ym mis Mawrth 2019, a mwy o dipyn nag mis Chwefror (+11.7%). Lladdwyd 183,500 o wartheg dethol, sef 10.2% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 12.3% yn fwy nag yn y mis blaenorol. O fewn y cyfanswm hwn, gwelwyd y cynnydd mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer yr heffrod, sef 14.4% yn fwy nag y llynedd. Lladdwyd 0.5% yn fwy o wartheg dethol nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Golygodd y cynnydd yn nifer y gwartheg a laddwyd, ynghyd â charcasau ychydig yn drymach (cynnydd o 1.1kg i 348.6kg o'r naill flwyddyn i'r llall), fod y cig eidion a gynhyrchwyd wedi cynyddu 8.4% i 82,200 tunnell.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**









## DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ym marchnadoedd da byw Cymru wedi sefydlogi oddi ar y cyfyngiadau symud ar bobl. Roedd y pris cyfunol am ŵyn hen dymor ac ŵyn tymor newydd yn yr wythnos yn diweddu 25 Ebrill yn 227.0c/kg - 5.6c yn fwy nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019, ac 18.7c yn uwch na'r cyfartaledd 5-mlynedd (cyfartaledd 2015-2019: 208.3c/kg). Mae prisiau mamogiaid difa yn dal i fod yn ansefydlog; y pris ar gyfer yr wythnos yn diweddu 25 Ebrill oedd £66.00 y famog, sef gostyngiad o £7.00 mewn wythnos. Mae'r pris ar hyn o bryd yn £2.80 yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Yn yr wythnos yn diweddu 25 Ebrill, roedd prisiau pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 463.8c/kg (+8.8c nag yn yr wythnos flaenorol).

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Mawrth oedd 1.02 miliwn -9.6% yn llai nag yn Mawrth 2019, ond 7.1% yn fwy nag ym mis Chwefror. Roedd y nifer o wyn dethol a laddwyd yn 891,400 - sef 101,600 (10.2%) yn llai, a chafwyd gostyngiad o 5.1% yn nifer y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd. Wrth edrych ar y cyfnod rhwng Mai 2019 a Mawrth 2020, mae niferoedd yr ŵyn dethol (sef 11.92 miliwn) yn 1.0% yn uwch nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. Am y lladdwyd llai o ŵyn yn ystod y mis, ac am fod y carcasau'n ysgafnach (-0.6kg), cynhyrchwyd 14.2% yn llai o gig defaid nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




## MOCH

Roedd Prisiau'r Holl Foch (APP) Manyleb-UE ym Mhrydain yn 166.4.4c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 11 Ebrill, sef rhywbeth yn debyg i'r wythnos flaenorol (+0.4c), a 23.1c yn uwch na'r wythnos gyfatebol yn 2019. Wrth i brisiau ddal i godi'n uwch nag arfer oddi ar fis Medi, mae'r pris ar hyn o bryd yn 25.9c yn uwch na'r cyfartaledd-pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 140.5c/kg). Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 11 Ebrill yn £58.78 y mochyn (+33.1% nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl) ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £43.47 y mochyn (+20.6%).

Lladdwyd cyfanswm o 965,600 o foch yn lladd-dai'r DU ym mis Mawrth - 9.6% yn fwy nag ym mis Chwefror, a 9.7% yn fwy nag mis Mawrth 2019. Y prif reswm am y cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall oedd bod 85,000 (9.9%) yn fwy o foch heb fagu wedi cael eu lladd; dim ond 1.4% oedd y cynnydd ar gyfer hychod a baeddod. Hefyd, roedd carcasau'r moch heb fagu ychydig yn drymach mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol yn 2019 (+1.0kg i 86.6kg). Oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y moch heb fagu a laddwyd ym mis Mawrth, cynhyrchwyd 10.6% yn fwy o borc nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.